# LLWYDDIANT I FYFYRWYR CLWB CODIO CONWY WLEDIG



Yr wythnos ddiwethaf bu dau fyfyriwr o Ysgol Bro Gwydir yn llwyddiannus yng Nghystadleuaeth Codio Cymru Gyfan a gynhelir yn flynyddol yng Ngholeg Meirion Dwyfor ym Mhwllheli.

Bu Cai Lloyd Spencer ac Oliver Egelstaff-Thomas yn llwyddiannus yn y Categori Uned, ac enillodd y ddau ohonynt wobrau yn y categorïau Cymeradwyaeth Uchel. Daeth y fuddugoliaeth ar ôl i naw ysgol ar draws Conwy wledig gael "hyfforddiant Codio", prosiect a ariannwyd trwy raglen LEADER o dan Raglen Datblygu Gwledig Conwy.

Nod y prosiect oedd sefydlu rhwydwaith o glybiau codio ar draws Conwy wledig yn ogystal â darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau codio a rhaglennu cyfrifiaduron, i'w galluogi i gystadlu yn y farchnad waith ddigidol.

Mae'r prosiect yn golygu cydweithio rhwng ysgolion cynradd gwledig Conwy trwy'r Grŵp Gweithredu Lleol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Choleg Meirion Dwyfor i gyflwyno cyfres o weithdai a chefnogaeth barhaus gan ddarparu cyfleoedd i blant ysgolion cynradd ddysgu sut i godio.

Bydd y prosiect yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau codio a rhaglennu cyfrifiaduron, i'w galluogi i gystadlu a chael gwaith yn y farchnad waith gynyddol ddigidol.

Fel rhan o'r prosiect, derbyniodd ysgolion hyfforddiant a pheiriannau 'Chromebook'.

Dywedodd Mrs Nest Davies, athrawes yn Ysgol Bro Gwydir,

"Mae'r holl brofiad wedi bod yn anhygoel, ni fyddai wedi bod yn bosibl heb yr hyfforddiant a gawsom trwy'r prosiect".

Dywedodd Cai ac Oliver,

"Fe fyddwn ni'n sicr yn anelu am y gwobrau eto'r flwyddyn nesaf a gobeithio y gallwn fod hyn yn oed yn fwy cystadleuol".

Dywedodd Meira Woosnam Swyddog Galluogi Gwledig ar gyfer Conwy Cynhaliol,

"Rydym wrth ein boddau bod y Grŵp Gweithredu Lleol yma yng Nghonwy wedi cefnogi prosiect sydd wedi cael effaith mor gadarnhaol ar y myfyrwyr".

"Ni wnaethom ragweld y byddai'r prosiect mor llwyddiannus â hyn mewn cyfnod mor fyr, gan mai dim ond ym mis Rhagfyr y cafodd yr ysgolion cyntaf eu hyfforddiant.

“Allwn ni ddim aros i glywed am fwy o blant yn dysgu codio a gobeithio yn ennill mwy o wobrau”.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch gwaith y Grŵp Gweithredu Lleol yng Nghonwy a rhaglen LEADER – ewch i https://ruralconwy.org.uk/home/ neu cysylltwch â ni drwy ffonio 01492 576673 neu grwpgweithredulleolconwy@conwy.gov.uk